FWJLAF 02

Cyd-Fforwm Mynediad Lleol Sir y Fflint a Wrecsam

Cofnodion yr Ail gyfarfod a gynhaliwyd ddydd Llun 29 Ebrill ym Mharc Gwledig Tŷ Mawr, Cefn Mawr, Wrecsam

01/19 Yn Bresennol ac Ymddiheuriadau

Yn Bresennol:

YSGRIFENNYDD:
Caroline Selby (CS)

CADEIRYDD:
Tim Stratton (TS)

AELODAU:
Hannah Arndt (HA) – tan 12.30pm
Edwina Hart (EH)
Mabyn Pickering (MP) – tan 12,40pm
David Collins (DC)
David Evans (DE)
John Holiday (JH)
Neville Howell (NH)
Alan Neale (AN)
Bill Stephens (BS) – tan 12.40pm
Tim Stratton (TS)
Edward Wardle (EW) – tan 12.45pm
Martin Howorth (MH)

MYNYCHWYR ERAILL:
Tom Woodall (TW) CSFf
Alun Price (AP) Cyfoeth Naturiol Cymru
Lynda Steele (LS) Cadeirydd NEWBA
Richard Dearing (RD) CNC

Ymddiheuriadau:
Pene Coles
Rachel Lewis
Mike Crawshaw

Croesawodd TS bawb i'r cyfarfod ac yna cyflwynodd pawb ei hunain.

02/19 Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 7 Chwefror 2019

Gan nad oedd unrhyw gywiriadau, cynigiwyd y cofnodion gan Neville Howell, eiliwyd gan Edward Wardle, a chytunwyd arnynt fel cofnod cywir a'u llofnodi gan y Cadeirydd.

03/19 Materion yn Codi

a) P3 07/19 Cysylltodd TS ag Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Gogledd Cymru ynghylch aelodaeth. Mae gan NWWT ddiddordeb mewn cael ei gyfethol. TS i anfon manylion cyswllt i CS. **TS**

b) P3 07/19 Diweddarodd CS y Cylch Gorchwyl a'i ddosbarthu.

c) P6 09/19 TW i fynd ar drywydd anfon dolen gyswllt ynghylch ffyrdd mabwysiedig Sir y Fflint ar-lein **TW**

d) P6 09/19 Hysbysodd AP y cyfarfod bod yr holl dir mynediad agored ar wefan CNC a bydd yn anfon y ddolen gyswllt atyn nhw. **AP**

e) P7 10/19 a Dosbarthodd CS restr o fanylion cyswllt aelodau

f) P8 11/19 c Awgrymodd TW y dylai Cynlluniwr fynychu cyfarfod i drafod cyfranogiad FfMLl ynghylch Ceisiadau Cynllunio a sut i ryngweithio â'r ddwy adran Gynllunio. **MH a TW**

04/19 Adroddiad oddi wrth y Cadeirydd

Aeth TS i gyfarfod Cadeiryddion y Fforymau Mynediad Lleol a gynhaliwyd ar 20 Mawrth 2019 lle codwyd y mater o gysylltu â'r Fforymau Mynediad Lleol ar ddatblygiadau cefnffyrdd e.e. ffordd osgoi Caernarfon, gan nad oes cysondeb ledled Cymru.

Mynychais gyfarfod yn Fforwm Busnes Wrecsam a soniodd sawl pwyllgor / asiantaeth / corff am yr Isadeiledd Gwyrdd.

Siaradais â Chynlluniwr o ymgynghoriaeth ynglŷn ag Isadeiledd Gwyrdd ac nid oes unrhyw ganllawiau cynllunio atodol na dim i gysylltu Cynllunio â Hawliau Tramwy.

JH - A yw Teithio Llesol yn helpu?

TS - Na, gan nad yw'n cynnwys hamdden.

MH – Mae Isadeiledd Gwyrdd yn y CDLl. Gwahoddwch Gynllunwyr.

TW - Polisi Cynllunio 10 - mae'n rhaid i bob Awdurdod Lleol lunio hyn.

Gofynnwyd cwestiwn - Pa rôl sydd gan FfMLl yn hyn?

TW - Mae FfMLl yn cynghori. Mae angen deall rôl y Fforwm Mynediad Lleol gyda hyn o ran cynllunio.

NH - Mae cefnffyrdd hefyd yn ystyriaeth. Mae yna gynllun Llywodraeth Cymru lle mae Hawliau Tramwy wedi cael eu terfynu ac mae ymdrechion i'w hadfer.

MP - pryd fydd y CDLl yn cael ei fabwysiadu?

MH - yn Wrecsam caiff ei archwilio eleni, ond mae'n ddogfen eang. Mae angen i'r FfMLl siarad â chynllunwyr ynglŷn â'r hyn sy'n tanseilio'r CDLl e.e. Canllawiau Cynllunio Atodol.

TW - mae CDLl Sir y Fflint i fod allan yn yr hydref.

JH - Gofynnais i ymgynghorwyr pa ddarpariaethau oedd yn cael eu gwneud ynglŷn â cherddwyr ac ati, a'r ateb oedd "byddwn yn gwneud hyn yn ddiweddarach". Dylai hyn fod yn rhan annatod o ddatblygiadau ac nid yn rhywbeth i'w ystyried yn ddiweddarach.

JH - Onid oes dyletswydd statudol iddo fod yn rhan annatod?

TS - nid oes canllawiau cynllunio i'w cefnogi, felly byddai hyn yn gyfle i drafod meddylfryd y Cynllunwyr ynghylch Cynlluniau Datblygu Lleol, ac ati.

DC - Mae Cerddwyr wedi clywed bod cynlluniau i uwchraddio croesfannau ar yr A55 gyda phontydd neu danffyrdd neu eu dileu yn gyfan gwbl.

TS - mae hyn yn bwysig, a rhaid i ni siarad â'r cynllunwyr.

NF - All FfMLl wneud eu hunain yn hysbys i Gynllunwyr Llywodraeth Cymru ynghylch pethau nad ydynt yn [dod dan gylch gwaith sic] awdurdodau lleol?

TS - Byddaf yn cysylltu â Chadeiryddion y FfMLl i atgoffa nad yw hwn yn fater lleol. **TS**

TW – Gellid gwahodd yr Asiantaeth Cefnffyrdd i fynychu cyfarfod. Byddaf yn ymdrechu i ddod o hyd i gyswllt. **TW**

05/19 Cynllun Gwella Hawliau Tramwy (Sir y Fflint a Wrecsam)

MH – Wrecsam

Mae'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy wedi mynd drwy'r cyngor llawn ac wedi cael ei fabwysiadu.

TW - Sir y Fflint

Nid yw'r CGHT wedi bod trwy gylch y Cabinet ond mae disgwyl iddo ddigwydd ym mis Mehefin. Nid oes unrhyw ddiwygiadau ar hyn o bryd.

Mae'r Cynllun Cyflawni Blynyddol wedi'i ddrafftio a dosbarthwyd copïau. Dylid anfon unrhyw ymholiadau neu sylwadau ataf. **PAWB**

JH - pryd fydd y CGHT yn cael ei gyhoeddi?

TW - ar ôl cyfarfod y Cabinet.

JH - roedd yn anodd ei ddarllen ar-lein yn enwedig y mapiau.

TW - nodwyd y sylwadau. Caiff ei gyhoeddi ar-lein gan fod costau argraffu yn ddrud. Fodd bynnag, gellir addasu maint y ffont.

BS - a fydd Cynllun Gwella Hawliau Tramwy Wrecsam yn cael ei argraffu neu ar-lein?

MH - ar-lein, oherwydd costau. Bydd targedau ar gyfer CGHT yn cael eu gosod ar y wefan.

TS - gyda phethau ar-lein pa mor gyfredol yw'r dudalen FfMLl a'r dudalen Hawliau Tramwy?

MH - mae lefelau staffio yn effeithio ar ba mor aml y gall pobl ddiweddaru tudalennau. Rwy'n awgrymu eich bod yn cysylltu ag MH neu SH os oes angen diweddaru pethau.

TS - Rwy'n anfon gwybodaeth / ceisiadau i Gyngor Sir y Fflint ond nid ydynt yn ymddangos i fod ar y dudalen.

TW - byddaf yn gwirio. **TW**

DC – Nid oes digon o adnoddau gan adrannau Hawliau Tramwy ledled y wlad. Mae angen cydnabod hyn a chael eitem ar yr agenda i weld sut y gall FfMLl helpu adrannau Hawliau Tramwy.

TS - un o ddyletswyddau'r Fforymau Mynediad Lleol yw craffu ar Hawliau Tramwy awdurdodau lleol ac mae angen i ni gael yr wybodaeth ddiweddaraf i

wneud hyn. Mae angen i ni hysbysu'r awdurdod lleol a Llywodraeth Cymru ac i fonitro'r dyletswyddau statudol yn gydlynol.

A all MH a TW nodi sut y gall y Fforwm Mynediad Lleol gyflawni'r monitro hwn orau? Disgwylir y gwaith monitro hwn hefyd gan CNC.

MH a TW - yr agenda nesaf.

NH - Rwy'n ymwybodol o'r weithdrefn ar gyfer rhoi gwybod am ddiffygion yn CSFf, ydy Wrecsam yr un fath?

MH - anfon sylwadau drwy e-bost.

NH - tan yn ddiweddar sampl yn unig oedd gwybodaeth gan Gyngor Sir y Fflint.

MH - caiff canran o'r rhwydwaith ei harchwilio bob blwyddyn. Mae'r sampl ar hap ac yn ystadegol ystyrlon.

JH - a allai defnyddwyr / gwirfoddolwyr roi adborth?

MH - croesewir adborth ond mae'r system yn rhoi canlyniadau yn ystadegol. Mae angen i'r meini prawf fod yr un fath er mwyn i'r canlyniadau fod yn ddilys. Dydw i ddim yn dweud na, dim ond yn meddwl sut.

JH - mae angen diweddaru pobl a'u cadw ar ein hochr.

AN - a ellir dosbarthu'r meini prawf?

MH - gellir.

MP - a all y FfMLl gael rhestr wedi'i diweddaru o DMMO.

MH - Caiff. Cysylltwch â SH a DCh am ddiweddariad y gellir ei ddosbarthu. **CS**

TW – Mae Cynllun Gwella Hawliau Tramwy yn gynllun deng mlynedd gyda blaenoriaethau ond mae cyllid cyfyngedig hyd yn oed ar gyfer dyletswyddau statudol. Bu trafodaethau yn y gorffennol ynglŷn â beth a sut i ariannu blaenoriaethau.

06/19 Datganiad Ardal Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC)

Rhoddodd RD gyflwyniad ar y broses Datganiad Ardal - hyd at fis Ebrill 2019. Gellir gwneud sylwadau ar-lein drwy'r wefan.

EH - a oes strategaethau ar gyfer tanau ar fynyddoedd, ac ati?
RD - oes mae yna strategaethau ac mae trafodaethau yn parhau. Byddaf yn anfon cyswllt / dolen gan nad fy ardal i yw hon.

JH - pa ddylanwad y mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi'i gael ar ddatblygiadau a choetiroedd?
RD - Bydd Datganiadau Ardal yn ceisio dylanwadu ar Gynlluniau Datblygu Lleol

a Chynlluniau Gwella Hawliau Tramwy. Bydd cynllunwyr yn cael gwybod am yr hyn sydd yn yr ardal er y dylai hyn fod yn hysbys beth bynnag. Mae mecanweithiau yn eu lle.

TS - a oes yna goetir a reolir gan CNC na oes mynediad agored iddo?
RD - mae hyn oherwydd ei fod ar les-ddaliad nid rhydd-ddaliad. Efallai y dylid ymchwilio i fynediad hamdden. Byddaf yn edrych i mewn i'r ardaloedd yn Wrecsam. **RD**

Anogodd RD bobl i roi eu manylion cyswllt i'w galluogi i gymryd rhan yn y broses hon.

TS - sut bydd y map Datganiad Ardal yn cysylltu ag agweddau eraill a reolir gan CNC fel dalgylch afon?
RD - bydd y rhain yn nodi strategaeth sefydliadol ac yn llywio Cynlluniau Rheoli. Bydd angen ymgysylltu â grŵp o bobl.
Dyma ddechrau'r sgwrs, felly croesewir adborth.

NH - pryd fydd y drafft cyntaf yn cael ei ysgrifennu?
RD - ar ôl casglu'r wybodaeth. Proffil Ardal a Themâu Newydd.
TS - sut fyddwch chi'n cyfleu'r wybodaeth i'r FfMLl?
RD - gallwn fynd i gyfarfodydd FfMLl i'w diweddaru.
Mae CNC yn cael ei ailstrwythuro'n fawr ar hyn o bryd.

NH - beth mae Lloegr yn ei wneud?
Edrych i weld beth mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn ei wneud yn yr un modd â siroedd eraill, gan fod hwn ffordd newydd o weithio.

Datganiad Ysgrifenedig: Ymateb y Llywodraeth: Bwrw ymlaen â'r Ymgynghoriad ar Reolaeth Gynaliadwy Cymru o Adnoddau Naturiol – dosbarthwyd a nodwyd hyn.

DC - Rwyf wedi bod yn aros bron i dair blynedd am hyn, felly rwy'n ei groesawu.
TS - Tybiaf y daw unrhyw ohebiaeth trwy gyfarfodydd Cadeiryddion y Fforymau Mynediad Lleol. Yng nghyfarfod Cadeiryddion y FfMLl, dywedodd Cyfoeth Naturiol Cymru y bydd y Gweinidog yn gwneud datganiad i Gadeiryddion y FfMLl Cenedlaethol.

BS - a fydd llwybrau ceffylau ac ati yn cael eu dynodi'n ardaloedd diogel ar gyfer aml-ddefnydd?
TS – nid ydym yn gwybod sut y gwneir hyn.
DC - mae dileu Hawliau Tramwy yn ymddangos yn dda gan y gallai fod yn llai drud a biwrocrataidd.

07/19 Datganiad Ysgrifenedig: Ymateb y Llywodraeth: Bwrw Ymlaen â'r Ymgynghoriad ar Reolaeth Gynaliadwy Cymru o Adnoddau Naturiol

Dosbarthwyd a nodwyd hyn.

08/19 Cynnig Corsydd (Wrecsam)

Rhoddodd Lynda Steele, Cymdeithas Llwybrau Ceffylau Gogledd Ddwyrain Cymru, gyflwyniad
Astudiaeth Ddichonoldeb Llwybr Marchogaeth y Gororau a'r Corsydd (Marches and Mosses) Drafft v2.0

JH - a nodwyd nifer y marchogwyr posibl?
LS - nid yw llawer o bobl yn gwybod ei fod yno, er bod llwybrau'n bodoli. Rydym am annog pobl i ddefnyddio'r ardal ond yn ddiogel. Bydd angen rheoli parcio. Niferoedd bach yn unig a ddisgwylir.
Mae'r Lonydd Tawel yn addas ar gyfer coestys.

Bronington 70 - hoffwn gau hwn gan ei fod yn beryglus iawn ac yn gorsiog iawn.
Hoffwn i ddau lwybr presennol fod yn llwybrau ceffylau â chaniatâd.
Mae sawl ffordd o archwilio hyn.
Cytunwyd bod angen cynnal y drafodaeth ar adeg arall.
Graddio i lawr a diddymu - maes technegol.

Gadawodd HA ar y pwynt hwn yn y cyfarfod.

LS - byddai angen mwy o arwyddion, a hoffem gael cymorth ynglŷn â niferoedd a chostau.
MH - byddai angen cyllid ar gyfer cynnal arwyddion.

LS - hoffem i'r FfMLl roi datganiad yn cytuno mewn egwyddor.

Bydd angen rheoli mynediad oherwydd y dirwedd fregus a'r system eco.

Hygyrchedd - e.e. pobl mewn cadeiriau olwyn oherwydd weithiau mae angen allweddi i agor giatiau.
EW - Mae tân ar y Corsydd yn berygl ac yn fater diogelwch felly bydd angen hysbysiadau ar gyfer diogelwch.

Gadawodd MP a BS ar y pwynt hwn yn y cyfarfod.

TS - mynediad i goestys a dynnir gan geffylau â gyrwyr - gall hyn ddenu defnyddwyr eraill.
MH - ni all gyrwyr ddefnyddio llwybrau ceffylau.
TS - gall tirfeddianwyr roi caniatâd.
MH - cysylltwch ag SH gydag ymholiadau.
NH - a yw'r llwybr ceffyl wedi'i farcio?
LS - dim ond rhannau sydd wedi'u marcio.
NH - a oes rhaid i lwybrau fod ag arwyddion?
TS - dim ond rhai.

Cafwyd trafodaeth ond bydd angen cael cyngor perthnasol. **LS**

MH - cadarnhau materion gyda SH ac SR wedyn dychwelyd i'r FfMLl

Gadawodd EW ar y pwynt hwn yn y cyfarfod.

Cynigiwyd gan Edwina Hart, eiliwyd gan David Collins a chytunwyd:

“Mae FWJLAF yn cefnogi'r cynnig mewn egwyddor, yn amodol ar eglurhad a datrys ymholiadau”.

DC - arwyddion?
TS - mae'n rhaid i Priffyrdd gymeradwyo arwyddion ar briffyrdd ond ni fyddai'n rhaid i'r Awdurdod Lleol dalu am yr arwyddion.

MH - gwneud mwy o waith cefndir a dod i'r cyfarfod nesaf gyda chynnig cryfach.
AR YR AGENDA NESAF

09/19 Unrhyw Fater Arall

a) DC - nid yw talu am barcio mewn parciau gwledig yn annog hygyrchedd. Dylai'r Fforwm Mynediad Lleol siarad am hyn.
MH - mae taliadau meysydd parcio yn darparu incwm gan fod cyllidebau’n cael eu torri.
TW - mae taliadau'n cael eu hystyried mewn dau barc yn Sir y Fflint oherwydd eu bod yn orlawn. Angen annog pobl i gerdded neu ymweld â safleoedd eraill yn y ddwy sir. Gwasgaru ymwelwyr.

b) JH - mae pryderon gan bobl / grwpiau sy'n cael trafferth cael mynediad i ardaloedd oherwydd steil y giatiau.
Codwyd pryderon hefyd ynghylch agor llwybrau i bobl â beiciau modur ar y ffordd.
JH - Teimlaf fod yn rhaid mynd i'r afael â chyfyngiadau hygyrchedd.

Ymholiad ynglŷn â beiciau trydan - nid yw beiciau trydan yn gyfreithlon os oes sbardun.

DH - Gellid newid / dileu fframiau gan fod y rhain yn cyfyngu ar sgwteri symudedd.
MF - gallai hyn fod yn eitem agenda ar gyfer cyfarfod yn y dyfodol.

c) NH - gellid trafod hyrwyddo'r Llwybr Cyswllt o Saltney i Glawdd Offa mewn cyfarfod yn y dyfodol.

d) TS - Pam fod y papur Beth yw Priffyrdd Cyhoeddus? wedi'i ddosbarthu
TW - o'r drafodaeth yn y cyfarfod diwethaf, teimlwyd y byddai pobl yn gwerthfawrogi'r wybodaeth.
TS - mae'n crybwyll Deddf 1980 neu 1989 ond hoffwn weld Deddfau a

Hawliau blaenorol.
TW - byddai'r Ddeddf Priffyrdd wedi disodli pob Deddf flaenorol.
TS - hawliau mynediad?
TW - byddaf yn ymchwilio ac yn adrodd yn ôl. **TW**
TS – statws llwybrau mabwysiedig?
JH - fel arfer ar stadau tai.
MH - nid hawliau tramwy cyhoeddus.

10/19 Eitemau ar gyfer yr Agenda Nesaf

a) Monitro - Awdurdod Lleol a CNC
b) Cynnig Corsydd
c) Cynlluniau Gwella Hawliau Tramwy
d) Iechyd Cyhoeddus Cymru / Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus / Bwrdd Iechyd / Beth am Symud

11/19 Dyddiad, amser a lleoliad y Cyfarfod Nesaf

Yn Sir y Fflint, o bosibl ym mis Gorffennaf ac ym Maes Glas.